**Dinas a Sir Abertawe**

## Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | R Fogarty | V A Holland |
| M Jones | W G Lewis | P N May |
| F D O'Brien | S Pritchard | M S Tribe |
| T M White | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**
Elizabeth Lee

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P R Hood-Williams | L R Jones |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Lee Cambule | Tackling Poverty Service Manager |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Sarah Jordan | Landlord and Community Housing Services Manager |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Carol Morgan | Rheolwr Datblygu Mwy o-Gatref |
| Steve Porter | Rheolwr Gweithrediadau Tai |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): H Lawson
Aelodau Cyfetholedig Statudol: Beth Allender
Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: C A Holley a/ac S M Jones

---

**51 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

**52 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chyhoeddwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 53 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022 fel cofnod cywir.

## 54 Cwestiynau gan y cyhoedd.

Ni chafwyd cwestiynau gan y cyhoedd.

## 55 Craffu ar Gyfrifoldebau Portffolio Aelodau'r Cabinet: Homelessness - Y Cynghorydd Andrea Lewis, Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau ei hadroddiad a oedd yn ymdrin â chyfrifoldeb y portffolio ynglŷn â digartrefedd. Dywedodd fod digartrefedd wedi cynyddu ar draws Cymru. Cyfeiriwyd at addewid 'gwely bob amser' Cyngor Abertawe a diolchodd i’r timau mewnol ac allanol a fu'n gweithio yn ystod pandemig COVID a'r rheini sy'n parhau i weithio i helpu pobl sydd mewn angen.

Gofynnodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau i Reolwr Gweithrediadau'r Gwasanaethau Tai Cymunedol roi trosolwg ar y pwysau presennol o ran digartrefedd a sut yr ymdrinnir â'r pwysau hynny ar hyn o bryd.

Rhoddodd Rheolwr Gweithrediadau'r Gwasanaethau Tai Cymunedol y cefndir ynghylch pandemig COVID, lefelau ac achosion digartrefedd, Strategaeth a blaenoriaethau’r Rhaglen Cymorth Tai, y cyflawniadau presennol, yr heriau wrth symud ymlaen a chasgliad a chrynodeb.

Yn ogystal â Rheolwr Gweithrediadau'r Gwasanaethau Tai Cymunedol, roedd Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd a Rheolwr Landlordiaid a'r Gwasanaethau Tai Cymunedol yn bresennol i gynorthwyo'r Pwyllgor.

Roedd cwestiynau a thrafodaeth y pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymgorffori'r Strategaeth Digartrefedd o fewn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai newydd ar gyfer 2023-2027.
- Cynnydd ar flaenoriaethau'r Strategaeth Digartrefedd/meysydd penodol i’w datblygu, gan gynnwys cynnydd gydag ailgartrefu cyflym a chefnogaeth amlasiantaeth; gweithio mewn partneriaeth ag Iechyd ynghylch cefnogaeth iechyd meddwl a mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.
- Heriau sy'n gysylltiedig â phandemig COVID.
- Natur a lefelau nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref.
- Niferoedd y bobl sy'n cysgu allan. (Ffigurau cymharol y rheini sy'n cysgu allan yn Abertawe a'r Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru i'w darparu i'r Aelodau).
- Heriau sy'n gysylltiedig â llety dros dro, gan gynnwys defnyddio llety gwely a brecwast.
- Cynnydd mewn perthynas â thai â chymorth.

- Natur, lefelau a datblygiad parhaus tai ar gyfer pobl sengl.
- Mentrau parhaus er mwyn delio ag achosion digartrefedd, gan gynnwys pobl sy'n gadael y carchar.
- Effaith y gostyngiad yn y cyflenwad o dai fforddiadwy o fewn y sector rhentu preifat.

Oherwydd trafferthion technegol, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn dod i ben ac y byddai llythyr yn cael ei anfon at Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau yn adlewyrchu’r drafodaeth ac yn rannu barn y Pwyllgor.

**56 Adroddiad am Gyflawni Blaenoriaeth Gorfforaethol Trechu Tlodi.**

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023.

**57 Aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.**

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023.

**58 Rhaglen Waith Craffu.**

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023.

**59 Llythyrau craffu.**

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023.

**60 Dyddiad ac amser cyfarfodydd paneli/gweithgorau sydd ar ddod.**

**Penderfynwyd** gohirio'r eitem tan y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, 17 Ionawr 2023.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.58 pm

**Cadeirydd**